


ANELU AT YR
ANHYGOEL

2018

1918

Cymorth mewn trychineb

Canllaw'r
Myfyriwr



ROYAL
ACADEMY OF
ENGINEERING



Nod yr adnodd hwn yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ymchwilio i effaith gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) ar ddarparu cymorth dyngarol.



Cymorth mewn trychineb yr RAF

Mae gan yr RAF draddodiad hir o ddarparu cymorth mewn trychineb yn y DU ac ym mhedwar ban byd.

Y newyn yn Ethiopia rhwng 1983 a 1985 oedd y newyn gwaethaf i daro'r wlad mewn canrif. Mewn ymateb i'r newyn, Ymgyrch Bushel oedd un o'r gollyngiadau o'r awyr mwyaf o'i fath, gyda 32 tunnell fetrig a mwy o gyflenwadau'n cael eu dosbarthu i bobl newynog Ethiopia.

Yn 2009, roedd yr RAF yn allweddol wrth gynorthwyo trigolion Cumbria ar ôl i lifogydd daro rhyw 500 o gartrefi wrth i lefel y dŵr godi i 2.5 metr a mwy. Defnyddiwyd hofrenyddion yr RAF i godi o leiaf 50 o bobl i ddiogelwch; roedd rhai o'r rheini a achubwyd gan yr RAF wedi gorfod torri drwy doeau eu cartrefi er mwyn cael eu cludo i ddiogelwch.


Yn 2015, defnyddiwyd hofrenyddion Chinook yr RAF i ddosbarthu bagiau tywod i Swydd Gaerhirfryn i atal difrod llifogydd yn yr ardal.

AMSER I FEDDWL

Mae'r RAF wedi cael cais i roi cymorth ar ôl daeargryn yn Nepal. Digwyddodd y daeargryn ym mis Tachwedd, yng nghanol y tymor sych pan mae'r tymheredd yn disgyn i 15°C yn y dydd ac mor isel â 7°C yn y nos.

Mewn grwpiau, nodwch rai o'r pethau mae pobl eu hangen ond nad ydynt yn gallu cael atynt yn ystod ac ar ôl daeargryn.

Defnyddiwch y cardiau i'w trefnu yn ôl yr hyn sydd ei angen gyntaf. Defnyddiwch y cardiau gwag i ychwanegu unrhyw syniadau eraill sydd gan eich grŵp.




Y Weinyddiaeth Amddiffyn/
Hawlfraen y Goron

AMSER I WNEUD

Weithiau does dim modd i awyren neu hofrennydd lanio i ddsbarthu cymorth, felly mae'n rhaid gollwng nwyddau o'r awyr tra bod yr awyren neu hofrennydd yn symud.

Dyluniwch declyn glanio ar gyfer wy i sicrhau nad yw'n torri pan mae'n taro'r ddaear.

Wrth ddylunio'ch teclyn, meddyliwch sut gallwch chi leihau'r grym trawiad pan mae'r wy yn glanio.



Cymorth mewn trychineb



ROYAL
ACADEMY OF
ENGINEERING

Academi Frenhinol Peirianeg

Fel academi genedlaethol y DU ar gyfer peirianeg, rydym ni'n dwyn ynghyd y peirianwyr mwyaf llwyddiannus a dawnus gydag un nod: hybu a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes peirianeg.

Mae gennym ni bedair her strategol:

Sicrhau bod y DU ar flaen y gad ym maes arloesedd peirianyddol

Cefnogi datblygiad arloesedd a busnesau peirianyddol llwyddiannus yn y DU er mwyn creu cyfoeth, swyddi a buddiannau i'r genedl.

Mynd i'r afael â'r argyfwng o ran sgiliau peirianeg

Diwallu anghenion y DU drwy ysbrydoli cenhedlaeth o bobl ifanc o bob cefndir a rhoi iddynt y sgiliau ansawdd uchel sydd eu hangen arnynt i gael gyrfa werth chweil ym maes peirianeg.

Rhoi lle canolog i beirianeg mewn cymdeithas

Gwella ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth y cyhoedd o rôl hollbwysig peirianwyr ym mhob man.

Arwain y proffesiwn

Manteisio ar arbenigedd, egni a gallu'r proffesiwn i osod cyfeiriad strategol ar gyfer peirianeg a chydweithio ar atebion i brif heriau peirianeg.



Nod y Rhaglen Ieuencid a STEM RAF 100 yw cynnwys ac ysbrydoli pobl ifanc drwy feithrin eu diddordeb mewn llwybrau gyrfa peirianyddol a thechnegol.

O arbenigwyr seiber i awyrofod, awyrennau, electroneg a disgyblaethau mecanyddol, mae'r RAF wedi ymrwmo i ddefnyddio dathliadau ein canmlwyddiant i roi cyfle i bawb ac i annog mwy o amrywiaeth yn y maes hollbwysig hwn o brinder sgiliau cenedlaethol.



Academi Frenhinol Peirianeg
Prince Philip House, 3 Carlton House Terrace, Llundain SW1Y 5DG

Ffôn: +44 (0)20 7766 0600
www.raeng.org.uk

Rhif elusen gofrestrdig 293074

Delweddau clawr blaen/cefn: Y Weinyddiaeth
Amdiffyn/hawlfraint y Goron
Mae'r delweddau yn yr adnodd hwn wedi'u trwyddedu o dan y
Drwydded Llywodraeth Agored F3.0. I weld y drwydded hon, ewch
i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence

OGL

Ailgylchwch yr adnodd hwn (mae'r clawr wedi'i drin â
laminiad y gellir ei ailgylchu)